



8. Rheoli arian

8.14 Sut i ysgrifennu polisi buddsoddi da

Pam mae arnoch angen polisi buddsoddi?

Mae arweiniad y Comisiwn Elusennau yn ei gwneud yn ofynnol i bob elusen sydd â buddsoddiadau a reolir gan reolwr disgresiwn (hynny yw, rheolwr buddsoddi rydych wedi cytuno iddo gael disgresiwn llawn wrth wneud penderfyniadau buddsoddi ar eich rhan) fod â Datganiad Polisi Buddsoddi. Mae'r polisi yn darparu fframwaith i wneud penderfyniadau buddsoddi. Mae'n cynorthwyo i reoli adnoddau'n effeithiol ac yn dangos trefn lywodraethu dda. Os oes gennych reolwr buddsoddi allanol, bydd y polisi yn gosod y terfynau y gall ef weithredu ynddynt.

Mae arweiniad y Comisiwn Elusennau ar faterion buddsoddi i'w weld yn [CC14: Elusennau a Materion Buddsoddi: Canllaw i ymddiriedolwyr](#).

Pwy sy'n gyfrifol am y polisi buddsoddi?

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y polisi. Gall rheolwyr a chynghorwyr buddsoddi allanol gynorthwyo i'w baratoi, ond yr elusen sy'n berchen ar y polisi a dylai'r ymddiriedolwyr ei gymeradwyo ac yna ei adolygu yn rheolaidd.

Beth ddylai'r polisi buddsoddi ei gynnwys?

Dywed arweiniad y Comisiwn Elusennau y dylai polisi buddsoddi ymdrin â'r meysydd canlynol:

- Hyd a lled ei phwerau buddsoddi
- Amcanion buddsoddi'r elusen
- Agwedd yr elusen at risg
- Faint sydd ar gael i'w fuddsoddi, am ba hyd y gallai gael ei fuddsoddi ac unrhyw angen tebygol i dynnu arian yn ôl
- Y mathau o fuddsoddi a ganiateir, gallai hyn gynnwys ystyriaethau moesegol
- Pwy all wneud penderfyniadau buddsoddi
- Y ffordd y bydd buddsoddiadau'n cael eu rheoli, a'r meincnodau a'r targedau a ddefnyddir i fesur perfformiad
- Gofynion adrodd i reolwyr buddsoddi

Y ffordd y dylid datblygu polisi buddsoddi

Mae'r meysydd a nodir isod yn ganllaw i'r materion y dylai ymddiriedolwyr fod yn eu trafod wrth ffurfio eu polisi buddsoddi.

Mae'n bwysig sicrhau bod eich polisi buddsoddi yn cyd-fynd â pholisiau eraill (er enghraifft, rheoli risg a chronfeydd wrth gefn) er mwyn iddo fod yn gyson â'ch cynllun ariannol ehangach. Os ydych yn elusen fawr efallai y byddai arnoch eisiau cyflogi cynghorydd allanol, neu ystyried penodi ymddiriedolwr â phrofiad buddsoddi, er mwyn helpu i ddatblygu'ch polisi buddsoddi.

Bydd hyd y polisi yn amrywio gan ddibynnu ar yr elusen; ond yr hyn sy'n hanfodol yw bod ynddo ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniadau buddsoddi deallus.

Ym mha ffordd y dylid gosod polisi buddsoddi?

Mae'r fformat isod yn amlygu pob un o'r prif feysydd sy'n ofynnol yn ôl y Comisiwn Elusennau. Dim ond awgrym yw'r fformat hwn, mae arweiniad pellach ar gael yn [CC14: Elusennau a Materion Buddsoddi: Canllaw i ymddiriedolwyr](#)

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir cyffredinol ac amcan ariannol

- Faint sydd ar gael i'w fuddsoddi?
- Pa rôl y mae buddsoddiadau yn ei chwarae yn eich cyllideb a'ch cynllun ariannol cyffredinol?
- A oes unrhyw rannau o'ch asedau yn waddol parhaol?
- A ydych yn bwriadu pwysleisio sicrwydd gwerth, incwm neu dwf?
- A oes gennych unrhyw anghenion hylifedd penodol, er enghraifft, a oes gennych unrhyw gynlluniau a allai gynnwys tynnu arian yn ôl o'ch buddsoddiad?

1.2 Pwerau buddsoddi

- Pa bwerau buddsoddi mae'ch dogfen lywodraethu yn eu rhoi i ymddiriedolwyr?
- A oes gennych unrhyw gyfyngiadau ar eich asedau, megis gwaddol parhaol?

1.3 Llywodraethu

- Ym mha ffordd y gwneir penderfyniadau buddsoddi?
- A oes gennych Bwyllgor Buddsoddi?

2. Amcanion buddsoddi

Gallai ystyriaethau gynnwys:

- A oes gennych darged adenillion cyffredinol?
- A oes gennych darged incwm?
- A allwch fabwysiadu ymagwedd cyfanswm enillion, gan geisio cael adenillion cyffredinol o gyfalaf ac incwm; y gellir gwario'r naill neu'r llall
- A yw'n well gennych adenillion a gynhyrchir o incwm neu adenillion a gynhyrchir o gyfalaf?
- A ydych yn bwriadu diogelu'r asedau mewn termau absoliwt neu dermau 'real' (ar ôl chwyddiant)?

3. Risg

Dylai'r adran hon amlinellu'r risgiau y mae'r ymddiriedolwyr wedi'u hystyried ac unrhyw bolisïau sydd yn eu lle i reoli'r risgiau hyn. Gallai ystyriaethau gynnwys:

3.1 Agwedd at risg

- A yw'ch elusen yn dibynnu ar ei buddsoddiadau i ariannu ei gwaith elusennol?
- Beth yw agwedd yr ymddiriedolwyr at anwadalrwydd (amrywiadau tymor byr yng ngwerth y farchnad)?
- A yw lefelau gwario yn osodedig neu'n hyblyg?

3.2 Asedau

- Pa ddsbarthiadau asedau y gellir eu hystyried, er enghraifft, incwm sefydlog, ecwiti, eiddo?
- Ym mha ffordd rydych yn sicrhau amrywiaeth ddigonol rhwng dosbarthiadau asedau?
- A oes unrhyw gyfyngiadau ar y math neu'r lefel o asedau a ddelir (er enghraifft, dim cronfeydd rhagfantoli)?

3.3 Arian cyfred

- Beth yw'r arian cyfred sylfaenol ar gyfer y portffolio? Bydd y mwyafrif o elusennau yn y Deyrnas Unedig yn dewis sterling yn arian cyfred sylfaenol

3.4 Credyd/parti i gontract

- A oes cyfradd credyd leiaf yr hoffech ei gosod?
- A oes unrhyw gyfyngiadau ar y swm mwyaf a ddelir gydag un parti buddsoddi?

3.5 Arall

Gallai risgiau eraill a amlygir yma gynnwys risg chwyddiant, risg cyfradd llog, risg prisio neu risg foesegol, cymdeithasol ac amgylcheddol – mae arweiniad pellach ar gael yn [CC14: Elusennau a Materion Buddsoddi: Canllaw i ymddiriedolwyr](#).

4. Gofynion hylifedd

Gallai ystyriaethau gynnwys:

- A ydych yn dymuno tynnu i lawr ar eich buddsoddiadau yn rheolaidd?
- A ydych yn bwriadu tynnu ar incwm yn unig neu a fyddech yn tynnu ar gyfalaf hefyd?
- A oes gennych unrhyw ofynion gwario neu lif arian parod arfaethedig ar wahân i'r rheini a amlygir uchod?
- A ydych yn debygol o fod angen cael at gyfalaf dros gyfnod byr o amser?

5. Pryd rydych yn bwriadu tynnu ar y cronfeydd wrth gefn

Gallai ystyriaethau gynnwys:

- A oes disgwyl i'ch elusen fodoli am byth?
- A fyddech yn disgrifio'ch buddsoddiadau yn rhai tymor byr, tymor canolig neu dymor hir?
- A ydych yn disgwyl unrhyw newidiadau sylweddol yn eich cynllun ariannol yn y dyfodol?

6. Buddsoddiadau moesegol

Gallai ystyriaethau gynnwys:

- A oes gennych bolisi buddsoddi moesegol?
- A yw'r polisi yn cynnwys meini prawf negyddol neu feini prawf positif? Mae arweiniad pellach ar gael yn [CC14: Elusennau a Materion Buddsoddi: Canllaw i ymddiriedolwyr](#)

7. Rheoli, adrodd a monitro

7.1 Rheoli

- Os oes gennych reolwr buddsoddi, beth yw'r trefniadau? Er enghraifft, telerau'r cytundeb a hyd y cytundeb
- Faint o reolwyr buddsoddi sydd gennych? (Mae gan rai elusennau mawr iawn sawl un)
- Beth yw'r trefniadau ar gyfer gwarchodaeth y buddsoddiadau? (er enghraifft, trefniadau gwarchodaeth a ofalir gan eich rheolwr buddsoddi)
- Faint o lofnodwyr sy'n ofynnol i awdurdodi penderfyniadau?

7.2 Adrodd a monitro

- Beth yw'ch gofynion adrodd?
- Pa mor aml hoffech gael adroddiadau gan eich rheolwr buddsoddi?
- Pa mor aml y mae angen i reolwyr buddsoddi ddod i unrhyw gyfarfodydd pwyllgorau/y bwrdd?
- Pa feincnod y byddwch yn ei ddefnyddio i fesur perfformiad?

8. Cymeradwyo ac adolygu

- Pryd cymeradwyd y polisi hwn?
- Pa mor aml y bydd yn cael ei adolygu?

Gwybodaeth bellach

CC14: Elusennau a Materion Buddsoddi: Canllaw i ymddiriedolwyr.

<https://www.gov.uk/government/publications/charities-and-investment-matters-a-guide-for-trustees-cc14>

Ysgrifennu polisi buddsoddi'ch elusen – CFG a Charity Investors Group

http://www.charityinvestorsgroup.org.uk/Charity_Investors_Group/Initiatives_files/Investment%20Policy%20Statement%20Final.pdf

Cynhyrchwyd y daflen wybodaeth hon yn garedig gan Brewin Dolphin Limited:


www.brewin.co.uk/cardiff, ffôn 02920 340 100, ebost charitieswales@brewin.co.uk

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Nid yw'r wybodaeth uchod yn hollgynhwysfawr, fe'i rhoddir er dibenion enghreifftiol ac ni fwriedir iddi fod yn gyngor ar fuddsoddi nac yn gyngor cyfreithiol. Mae ymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod eu datganiad polisi buddsoddi yn ateb gofynion penodol eu helusen.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

<p>Medrwn Môn <i>Neuadd y Dref, Sgwâr Bulkeley, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7LR</i> Elusen Gofrestredig: 1088828</p> <p>Ffôn: 01248 724944 post@medrwnmon.org Ffacs: 01248 750149 www.medrwnmon.org</p>	 <p>WcVA CgGC</p>
<p>Cynhyrchwyd gan CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli Wedi ei ddiweddarau: 19/03/2015</p>	<p>Ffôn: 0300 111 0124 www.wcva.cymru</p>